OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 315 (Cy.33) (C.16)

HAWLIAU TRAMWY, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 10 Chwefror 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 103(3) a (4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (" y Ddeddf")(**1**):

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r canlynol ddod i rym —

(a) adran 63 o'r Ddeddf (gorfodi dyletswydd i atal rhwystrau ar briffyrdd);

(b) adran 70(1) a (3) o'r Ddeddf (mân ddiwygiadau i Ddeddf Priffyrdd 1980(**2**)); ac

(c) paragraffau 1, 6 a 9(5) o Atodlen 6 i'r Ddeddf (darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau gwella hawliau tramwy a baratowyd o dan adrannau 60 a 61 o'r Ddeddf),

yw 1 Ebrill 2004.

(**1**) 2000 p.37.
(**2**) 1980 p.66.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
10 Chwefror 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.